CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU
Tystysgrif Addysg Gyffredinol
Uwch Gyfrannol/Uwch

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE
General Certificate of Education
Advanced Subsidiary/Advanced

472/55

# HANES – HI2

## UNED 2

## ASTUDIAETH O GYFNOD 5

## AGWEDDAU AR HANES EWROP, tua 1490-1621

P.M. DYDD MERCHER, 7 Mehefin 2006

(45 munud)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **un** cwestiwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau sgwâr ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

**Atgoffir chi y bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig a ddefnyddir yn eich atebion yn effeithio ar y marciau a roddir.**

## UNED 2

## ASTUDIAETH O GYFNOD 5

## AGWEDDAU AR HANES EWROP, tua 1490-1621

*Atebwch* **un** *cwestiwn*.

*Yn eu hymateb i'r cwestiwn dehongliad, dylai ymgeiswyr ystyried dilysrwydd y dehongliad gan ddefnyddio'u gwybodaeth o'r cyfnod a dehongliadau posibl eraill. Dylai ymgeiswyr hefyd ystyried y ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar y ffordd y lluniwyd y dehongliad – megis y math o hanesydd/awdur, y dystiolaeth oedd ar gael i'r hanesydd/awdur a'r dyddiad cyhoeddi.*

**1. Ffrainc, 1515-1547**

'Ynghylch pob mater gwladol o bwys, pob mater sy'n ymwneud â heddwch neu â rhyfel, mae Ei Fawrhydi (Ffransis I), sydd mor ymostyngol *(submissive)* ynglŷn â phopeth arall, yn mynnu ufudd-dod i'w ewyllys. Yn y sefyllfa hon does neb yn y llys, pa mor fawr bynnag ei awdurdod, sy'n meiddio anghytuno â'i Fawrhydi.'

[Martino Cavalli, Llysgennad Fenis yn Ffrainc, yn ysgrifennu yn ei adroddiad swyddogol i Fenis (1546)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o lywodraeth Ffransis I? [80]

**2. Y Rhyfeloedd Crefyddol yn Ffrainc, 1562-1598**

'Gwrthdaro a ymladdwyd oherwydd achosion crefyddol yn bennaf oedd y gyfres o ryfeloedd cartref yn Ffrainc a ddechreuodd gyda'r gyflafan yn Vassy.'

[Mack P. Holt, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes Ffrainc yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yn ysgrifennu mewn llyfr arbenigol, *The French Wars of Religion, 1562-1629* (1995)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o'r Rhyfeloedd Crefyddol yn Ffrainc? [80]

**3. Teyrnasiad Henri IV, 1589-1610**

'Henri IV yn y diwedd a ddiddymodd broblem grefyddol Ffrainc trwy gyfrwng Cyhoeddeb (*Edict)* Nantes. Sefydlodd y Gyhoeddeb oddefgarwch *(toleration)* – rhyddid cydwybod a rhyddid i addoli.'

[J. E. Neale, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes Ewrop yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yn ysgrifennu mewn llyfr o ysgrifau hanesyddol, *The Age of Catherine de Medici* (1943)]

Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o gymodi *(reconciliation)* crefyddol yn nheyrnasiad Henri IV? [80]